Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gofal clyw yng Nghymru

## Ein cynllun ar gyfer gwasanaethau clyw GIG Cymru



Mehefin 2025

# Cynnwys


Am y ddogfen yma 3

Cynllun newydd ar gyfer gwasanaethau clyw yng Nghymru 5

Ein prif 10 blaenoriaeth 8

1. Cynllun cydgysylltiedig 9
2. Cymorth i bobl sy'n fyddar neu sy'n byw gyda Cholled Clyw 10
3. Gofal o ansawdd gwell 12
4. Staff mwy medrus 13
5. Gwasanaethau clyw lleol 14
6. Clyw a dementia 15
7. Helpu pobl i ofalu amdanyn nhw eu hunain 16
8. Gweithio gydag elusennau a gwirfoddolwyr 17
9. Gwell technoleg ac adeiladau 18
10. Cyfathrebu clir a hygyrch 19

Beth mae hyn i gyd yn ei feddwl 21


Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52260, ISBN digidol 978-1-80633-717-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Am y ddogfen yma

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru.




Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o gynllun. Rydych chi'n gallu darllen y cynllun gwreiddiol yma: Gofal Clyw GIG Cymru

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:




Gwefan: Dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau awdioleg yn y dyfodol 2025 | LLYW.CYMRU




E-bost: polisirsynhwyraucymru@llyw.cymru

Mae **Hawdd ei Ddeall** Cymru wedi paratoi'r ddogfen yma gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall Hawdd ei Ddeall Cymru – Dywedwch wrthym beth yw eich barn.

# Cynllun newydd ar gyfer gwasanaethau clyw yng Nghymru



Rydyn ni eisiau gwneud gwasanaethau clyw yn well i bawb.




Mae hyn yn meddwl gwasanaethau clyw sydd yn cael eu darparu gan:

- eich practis meddyg teulu



- yn y gymuned
- ac mewn ysbytai a chlinigau arbennig.



Rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid i edrych ar:

- Beth sydd wedi gweithio yn y gorffennol.




- Beth mae pobl ei angen nawr.



- Beth fydd pobl ei angen yn y dyfodol.
- Triniaethau a thechnolegau newydd ar gyfer colli clyw a phroblemau clyw.




Mae'r cynllun yma yn dweud beth yw ein nodau ar gyfer gwasanaethau clyw dros y 5 mlynedd nesaf.

Nod y cynllun ydy:







- Gwneud gwasanaethau'n haws i'w cael.
- Lleihau amseroedd aros.
- Hyfforddi staff i helpu mwy o bobl.
- Defnyddio triniaethau a thechnoleg newydd i wella'r gofal  mae pobl yn ei gael.



- Gwella sut rydyn ni'n cyfathrebu gyda chleifion a staff.




Mae Cymru bob amser wedi bod yn arweinydd ym maes gofal clyw.




Ni oedd y wlad gyntaf yn y byd i gael cynllun llawn ar gyfer gwasanaethau clyw.

Nawr rydyn ni'n arwain eto gyda'r cynllun newydd yma.

# Ein prif 10 blaenoriaeth



Dyma ein prif 10 blaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau clyw GIG Cymru.



Mae blaenoriaethau yn meddwl y pethau pwysig y byddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw.

# 1. Cynllun cydgysylltiedig

Fe fydd y cynllun yma yn ein helpu i gyflawni'r nodau mewn cynlluniau a deddfau pwysig eraill.



Rydyn ni eisiau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n dda gyda'i gilydd.

Felly maen nhw'n gallu rhoi'r gofal a'r gefnogaeth orau i bobl trwy gydol eu bywydau.

Ar gyfer gofal clyw, mae hyn yn meddwl:



- Rhoi gofal clyw yn agosach at adref.



- Osgoi anfon pobl i ysbytai, a meddygon teulu a darparu gofal clyw yn y gymuned yn lle hynny.




- Defnyddio adnoddau GIG Cymru (fel arian, staff ac amser) mewn ffordd glyfar a theg.

# 2. Cymorth i bobl sy'n F/fyddar neu sy'n byw gyda cholled clyw




Rydyn ni eisiau i bobl gael gofal a chefnogaeth sy'n eu helpu i fyw bywyd llawn.




Fe fyddwn ni'n adeiladu ar y **Fframwaith Gweithredu i Gymru**.

Mae fframwaith yn set o ganllawiau, gweithdrefnau neu nodau.




Mae'r Fframwaith yma yn dweud sut i ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth orau i bobl sydd:


**Byddar**

- yn F/fyddar
- neu yn byw gyda cholled clyw yng Nghymru.

Ar gyfer gofal clyw mae hyn yn meddwl:



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael mynediad teg at wasanaethau gofal clyw.


- Ateb yr anghenion iechyd clyw rydyn ni’n gwybod dydyn ni ddim yn eu bodloni ar hyn o bryd.




- Gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru i ddarparu gwasanaethau.

# 3. Gofal o ansawdd gwell

Fe fyddwn ni yn:



- Parhau i edrych ar, a gwella gwasanaethau clyw.
- Defnyddio rheolau a safonau ansawdd cenedlaethol. A gwella a diweddaru'r safonau yn ôl yr angen.



- Gwneud yn siŵr bod pob rhan o'r GIG a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal.

# 4. Staff mwy medrus

Fe fyddwn ni yn:




- Hyfforddi mwy o awdiolegwyr. Mae awdiolegwyr yn arbenigwyr gofal clyw.




- Helpu staff i ddysgu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau uwch.

- Cefnogi arweinwyr newydd mewn gofal clyw.




- Gwneud yn siŵr bod staff yn gallu gweithio ar lefel uchaf eu swydd.


- Datblygu staff fel eu bod nhw'n darparu gofal newydd a gwell.

# 5. Gwasanaethau clyw lleol

Fe fyddwn ni yn:



- Defnyddio'r wybodaeth am y bobl sy'n byw mewn ardal i gynllunio gwasanaethau lleol.



- Cael awdiolegwyr lefel uchel (arbenigwyr gofal clyw) ym mhob ardal leol.

- Gwneud hi'n haws cael help ar gyfer problemau clyw heb orfod gweld meddyg teulu.

**Gwasanaethau addas?**




- Dal ati i edrych ar bob rhan o wasanaethau gofal clyw. Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.

# 6. Clyw a dementia

Fe fyddwn ni yn:



- Defnyddio ymchwil a gwybodaeth i wella gwasanaethau i bobl â dementia.



Cartref Gofal

- Gwneud yn siŵr bod cartrefi gofal a gwasanaethau dementia yn cynnwys gwasanaethau gofal clyw.

- Gweithio gyda phartneriaid iechyd a gofal lleol i ddatblygu gwasanaethau.



Deall

- Helpu staff gofal clyw i ddeall mwy am ddementia.

# 7. Helpu pobl i ofalu amdanyn nhw eu hunain

Mae gan bobl ran bwysig i'w chwarae wrth ofalu am eu hiechyd eu hunain.

Fe fyddwn ni yn:



- Dysgu pobl sut i ofalu am eu clustiau a'u cymhorthion clyw.



- Helpu pobl i reoli eu problemau clyw.
- Cefnogi pobl i aros yn annibynnol ac yn iach.

# 8. Gweithio gydag elusennau a gwirfoddolwyr



Mae gwirfoddolwyr yn gallu
helpu pobl i ddeall eu cyflwr clyw.

Mae pobl yn gallu cefnogi ei gilydd
a helpu ei gilydd i reoli eu gofal.
A chefnogaeth gyda phethau
fel gofalu am gymhorthion clyw.



Fe fyddwn ni'n cefnogi gwirfoddolwyr
gofal clyw, fel bod pobl yn cael
y gefnogaeth orau.

# 9. Gwell technoleg ac adeiladau

Fe fyddwn ni yn:



- Gwella systemau ar gyfer casglu a deall data am broblemau clyw.

- Defnyddio data i wella gwasanaethau gofal clyw.



- Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau clyw yn gallu defnyddio'r dechnoleg a'r triniaethau diweddaraf.

- Defnyddio systemau rheoli cleifion gwell, sy'n helpu i uno iechyd a gofal cymdeithasol.




- Edrych ar sut mae AI (deallusrwydd artiffisial) yn gallu helpu i wella gwasanaethau.

- Gwneud yn siŵr bod gan wasanaethau clyw ddigon o adeiladau arbenigol o ansawdd uchel.

# 10. Cyfathrebu clir a hygyrch




Fe fyddwn ni'n dilyn Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch.


**Cyfathrebu**

Mae'r Safonau yn set o reolau. Maen nhw'n dweud beth mae'n rhaid i wasanaethau gofal iechyd ei wneud i gyfathrebu â phobl.

Rydych chi'n gallu darllen fersiwn hawdd ei ddeall o'r Safonau ar ein gwefan.

Ar gyfer gofal clyw mae hyn yn meddwl:




- Defnyddio gwybodaeth hawdd ei ddeall i roi cyngor i bobl.




- Hyfforddi staff gofal clyw i gefnogi pobl ag anghenion cyfathrebu gwahanol.




- Dysgu pobl am bwysigrwydd cael gofal yn gynnar ar gyfer problemau clyw.

# Beth mae hyn i gyd yn ei feddwl



Mae colli clyw yn gyffredin.
Mae'n gallu cael effaith fawr
ar iechyd a hapusrwydd pobl.





Mae hefyd yn effeithio ar sut mae
GIG Cymru a gwasanaethau lleol
yn defnyddio eu hamser a'u harian.



Mae timau gofal clyw yng Nghymru
wedi gwneud gwaith gwych yn
barod.




Maen nhw wedi creu ffyrdd sydd
wedi ennill gwobrau o wella
gwasanaethau.

Mae'r ffyrdd newydd yma o weithio eisoes yn helpu:



- Rhyddhau amser i nyrsys, meddygon teulu, a staff ysbyty.



- Rhoi gwell gofal i bobl sydd â phroblemau clyw.



cefnogaeth




Gyda'r gefnogaeth a'r cyllid cywir, rydyn ni'n gallu gwneud y gwasanaethau yma hyd yn oed yn well.




Fe fyddwn ni'n cyflwyno'r newidiadau yn y cynllun yma gam wrth gam dros y 3 blynedd nesaf. A gwneud gofal clyw ar gael mewn mannau mwy lleol.